

Ai ffaith yw ffaith beth bynnag yr iaith?

Effaith triniaeth y cyfieithydd ar y pryd o betrusiadau ar ganfyddiad y rheithgor o'r diffynnydd.

Cefndir

Yn llysoedd barn Cymru mae gan unrhyw un yr hawl i siarad Cymraeg.

Oni bai bod y bar gyfreithwyr, y barnwr, y rheithgor, a'r holl dystion hefyd yn siaradwyr Cymraeg, bydd angen gwasanaeth cyfieithydd ar y pryd er mwyn i'r siaradwyr Saesneg deall.

Sut mae Cyfieithu ar y Pryd y Gweithio

Mae cyfieithwyr ar y pryd yn cyfieithu ar lafar mewn amser real.

Ond ni ydynt y cyfieithu gair am air ond yn hytrach ystyr am ystyr.

Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid iddynt ddehongli'r gwreiddiol er mwyn ei ddeall a'i ddeall er mwyn ei chyfieithu.

Nid 'geiriadur' ydy'r cyfieithydd ond yn hytrach gweithredwr pwerus yn y cyfathrebu sy'n gwneud dewisiadau ieithyddol am sut i gyfieithu.

Yn ogystal, nid oes cyfatebolrwydd ieithyddol llwyr rhwng brawddeg yn iaith A ac iaith B bob tro; hynny ydy ni ellir dweud yr union un peth yn yr union un ffordd mewn 2 iaith.

Mae peth newid rhwng y gwreiddiol a'r cyfieithiad felly yn anochel.

Beth yw Petrusiadau?

'Geiriau neu ymadroddion nad ydynt yn ychwanegu at ystyr gweddill y datganiad ond sy'n lleihau pa mor sicr ydy'r datganiad'

Er enghraifft: chi mod, dwi'n meddwl, ella, am wn i, mae'n debyg, siŵr o fod, um

Dengys ymchwil pan fydd rhywun yn petruso, mae eraill yn dueddol o ymddiried llai mewn dadleuon y person hynny a'r person ei hunain.

Petrusiadau yn y Llys

Mae'r llys y cyd-destun cyferbyniol ac mae bod yn berswadiol a chael ei chanfod yn ddibynadwy yn holl bwysig i'r diffynnydd a'r achwynydd.

Mae cyfreithwyr hefyd yn defnyddio petrusiadau ac arwyddion eraill o ansicrwydd er mwyn adnabod man gwan tystiolaeth y tyst cyferbyniol.

Mae'r barnwr yn gofyn i reithwyr ystyried dibynadwyedd a chymeriad dystion wrth ystyried eu tystiolaeth; rhywbeth a effeithir gan betrusiadau.

Er hyn, dengys ymchwil bod rhai cyfieithwyr ar y pryd yn hepgor petrusiadau wrth gyfieithu.

Yr Arbrawf

Byddaf yn cynnal arbrawf ffug-reithgor.

Bydd y rheithwyr yn gwylio diffynnydd ac achwynydd yn cael ei chroesholi.

Bydd y diffynnydd a'r achwynydd yn defnyddio llawer o betrusiadau.

Byddant yn llenwi holiaduron cyn ac ar ôl trafodaeth rheithgor yn casglu ei barn ar rinweddau'r achwynydd a'r diffynnydd ee. dibynadwyedd, gonestrwydd

Byddant yn dod at reithfarn.

Cyflyrau

Bydd 3 cyflwr:

- 1) Cyflwr rheoli: Dim cyfieithu ar y pryd
- 2) Cyfieithydd yn hepgor petrusiadau'r achwynydd
- 3) Cyfieithydd yn hepgor petrusiadau'r diffynnydd

Hyd yma, cwblhawyd Cyflwr 1 – cafwyd rheithfarn o ddieuog a barnau mwy ffafriol tuag at y diffynnydd na'r achwynydd.

Goblygiadau'r Arbrawf

Os bydd canfyddiadau'r rheithgor, a'u rheithfarn yn ffafrio'r achwynydd yn y cyflwr lle mae'r diffynnydd yn unig sy'n petruso, bydd hyn yn arwyddocaol gan awgrymu ni ddylai cyfieithwyr ar y pryd hepgor petrusiadau.

Os na fydd unrhyw wahaniaeth, bydd hyn yn awgrymu nad oes unrhyw niwed i'r hepgoriadau hyn gan gyfieithwyr ar y pryd.



Ariannwyd y PhD yma gan Ysgoloriaeth Margaret Wooloff

Non Humphries, Prifysgol Aberystwyth
E-bost: noh6@aber.ac.uk
Prif oruchwyliwr: Dr Rhianedd Jewell
Ail oruchwyliwr: Dr Hanna Binks

